

SMYTH, RHOSIER (1541 - 1625), offeiriad Pabyddol a chyfieithydd yn Gymraeg

Enw: Rhosier Smyth

Dyddiad geni: 1541

Dyddiad marw: 1625

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: offeiriad Pabyddol a chyfieithydd yn Gymraeg

Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd

Awdur: Robert Geraint Gruffydd

Ganwyd yn Llanelwy yn 1541. Efallai iddo raddio'n B.A. yn Rhydychen yn 1563. Ni wyddys pa bryd y troes yn Babydd, ond gellir tybied iddo ffoi i'r Cyfandir tua chanol y saithdegau. Ymunodd â Choleg Seisnig Douai, ac ymaelododd yn y brifysgol yno c. 1576. Erbyn dechrau 1579 yr oedd yng Ngholeg Seisnig Rhufain, yn brwydro ym mhlaid y myfyrwyr Cymreig yn erbyn y Saeson (gweler [Clynnog, Morys](#)). Y Saeson a orfu, a diarddelwyd Smyth o'r coleg am iddo wrthod cymryd ei urddo'n offeiriad a dychwelyd i Loegr yn genhadwr. Tywyll yw ei hanes wedi hyn; efallai iddo gael nawdd gan ei gyfeillion [Owen Lewis](#) a [Gruffydd Robert](#). Y mae'n debyg bod rhyw sail i'r honiad a geir yn *Y Drych Cristianogawl* yn 1585 ei fod yn byw yn Rouen yn pryd hwnnw; efallai mai ef oedd y 'Doctor Smythy' a arwyddodd, ynghyd ag eraill, ddeiseb ar ran lleianod a mynachod Urdd San Ffraid (gynt o Syon Abbey) yn Rouen c. 1587. Dychwelodd i Loegr rywdro tua chanol y nawdegau, a charcharwyd ef yn Niwgad am ysbaid, ond llwyddodd i ddod yn rhydd. Y mae'n debyg mai rhywbryd wedi hyn yr urddwyd ef yn offeiriad; efallai ei fod eisoes yn S.T.P. (= D.D.), ond ni wyddys ble y graddiodd. Sgrifennodd [Gruffydd Robert](#) lythyr ato i Baris wedi iddo ddod yn rhydd o'r carchar, c. 1596, ac enwir ef gan un o ysbïwyr Cecil yn 1598 yn un o'r rhai a geisiai sefydlu seminari ym Mharis tua'r adeg honno. Cyfeirir ato drachefn gan ysbïwr yn 1601. Ym Mharis y cyhoeddodd ei dri llyfr Cymraeg, ond y mae nodyn mewn copi o *Theater dv Mond* yn Ll.G.C. yn awgrymu bod rhyw gysylltiad rhyngddo a sir Fynwy mor ddiweddar â 1615.

Yn ôl tystiolaeth un o'r ysbïwyr, yr oedd Smyth yn w?r pur ddiddorol ei syniadau; ni hoffai na'r Jesiwitiaid na'r Saeson, a dymunai weld sefydlu gwerin-lywodraeth, ynghyd â rhyddid cydwybod, yng Nghymru a Lloegr. Fel llenor, prin y cyfrifir ef ymysg meistri mawr rhyddiaith Gymraeg, ond nid dibwys o gwbl mo'i waith. Arbennig o ddiddorol yw ei ymgais i gyfoethogi geirfa'r iaith yn ôl awgrymiadau ei athro, [Gruffydd Robert](#). Dywed [Lewis Owen](#) yn ei *Running Register*, 1626, i Smyth farw 'the last year,' h.y. 1625 - ond os sgrifennwyd y geiriau yn 1625, yna 1624 fyddai'r flwyddyn:

Dyma restr o'i weithiau cyhoeddedig: (a) *Crynnodeb o addysc Cristnogawl*, Paris, 1609 (S.T.C. 4569). Cyfieithiad o ddwy bennod gyntaf a rhan o drydedd bennod catecism Lladin S. Petrus Canisius, *Summa Doctrinae Christianae*; (b) *Opvs catechisticvm ... sef yw: Svm ne grynoddeb o adysc Gristionogawl*, Paris, 1611 (S.T.C. 4570), cyfieithiad cyflawn o'r un catecism; (c) *Theater dv Mond sef ivv. Gorsedd y Byd*, Paris, 1615 (S.T.C. 3170a), cyfieithiad o lyfr Ffrangeg Pierre Boaistuau, *Le Théâtre du Monde*, sef traethawd ar drueni y byd a'i odidowgrwydd. Nid gwaith gwrth-ddiwgyadol mohono.

Priodolir i Smyth hefyd ragair byr a geir ar flaen *Y Drych Cristianogawl*, 1585. Ond ni ellir bod yn sicr mai ef a'i piau.

Awdur

Yr Athro Robert Geraint Gruffydd

Ffynonellau

Gweithiau Smyth

rhagymadrodd yr athro T. Parry i adargraffiad 1930 o *Theater du Mond - Gorsedd y Byd* (Caerdydd 1930), a'r ffynonellau a nodir yno

Catholic Record Society, xxxvii

J. R. Fletcher, *The Story of the English Bridgettines of Syon Abbey* (Abaty Syon 1933), 1933

llyfr a arysgrifwyd gan Smyth ym meddiant D. M. Rogers, M.A., Llyfrgell Bodley, Rhydychen

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Rhosier Smyth](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q13131044](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

